

## Cofnodion Cyfarfod y 10fed Ebrill 2018

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Aled Green, Martin Davies, R. Hefin Williams, Gareth Wyn Griffiths a Jane Pierce.  
Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones

**Gweddi:** Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

### **1.Ymddiheuriadau.**

Richard Ll. Jones, Emma Chappell, Rhian Evans-Hill a Gwawr Wyn Roberts.

Cydymdeimlwyd gyda R. Hefin Williams a 'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam ynghyfraith yn ystod yr wythnos a aeth heibio.

### **2.Datgan buddiant**

Dim

Rhanwyd ffurflenni lwfansau i gynghorwyr.

### **3. Cofnodion Cyfarfod 14eg Mawrth 2018**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Derbyniwyd llythyr yn ôl gan Un Llais Cymru, a darllenwyd ei gynnwys.

Penderfynwyd trafod seddi gwâg yn ein cyfarfod mis Mai.

### **Cofnodion Cyfarfod 6ed Mawrth 2018**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

### **4. Materion o'r cofnodion**

**CCG** – Nid ydym byth wedi cael ymateb gan CCG ynglyn a parcio yn Bro Elidir a Trem Eilian Brynrefail. Y clerc wedi gyrru ail lythyr yr wythnos yma yn gofyn am ymateb cyn gynted a bod modd.

**Bin Baw Cŵn** – Derbyniwyd llythyr gan Gwynedd fod paratodau ar droed i symyd y bin baw cŵn o tu allan i'r Caban i le fwy addas, ond mae hyn fwy na mis yn ôl. Y clerc i yrru i'w atgoffa.

**Biniau Baw Cwn** – Mae cŵyn wedi dod am fod y bin ger Eglwys Penisarwaun yn wastad yn llawn. Mae'r Cynghorydd sirol wedi rhoi cŵyn yn barod, a dywedodd o hyn ymlaen y buasai rhaid talu am fin ychwanegol, ond buasai posib rhoi bin mwy yno. Nid oedd y cyngor cymuned yn teimlo mai dyma'r ateb, gyda'r haf o'n blaen, ac oglau, yr ateb ydi eu bod yn cael eu gwagio yn amlach, run fath a biniau ailgylchu – yn wythnosol. Bu i ni hefyd dderbyn cŵyn nad oes bin o gwbl ar lôn Garnedd yn Neiniolen – lle mae rhan fwyaf o berchnogion yn cerdded eu cŵn. Mae ambell un yn codi y baw, a llawer yn ei adael, ac yna mae rhai eraill yn ei godi mewn bag a'l lechio i'r cau – sydd yn broblem arall. Cais i Cyngor Gwynedd am fin neu ddau ar Ion Garnedd i geisio cael perchnogion i godi baw y cŵn a defnyddio y bin..

**Gwasanaeth Bysiau** – Derbyniwyd amserlen newydd fydd yn rhedeg hyd at ddiwedd mis Mai, llawer wedi ei ddsbarthu o gwmpas yr ardal.

**Jasmin Cottage, Rhiwlas** – 'Bryn Hywel' oedd yr enw gwreiddiol ar y bwthyn yma.

**Ty Mawr Cottages** - Ysgrifennwyd lythyr i'r cyngor ynglyn a chyflwr y lôn ger y Tŷ yma, hynny ydi, gan fod dŵr yn sefyll mewn darn sydd eisioes wedi cael tarmac, ond yn amlwg ddim digon, ac yn ofnadwy o beryg pan yn glawio gan fod dŵr yn casglu yno yn bwl. Llythyr arall i ofyn iddynt ddatrys y broblem cyn fod yna ddamwain difrifol yno.

## **5. Gohebiaeth a materion eraill**

**FFordd Beicio o Racca i Beran** – Mae'r cynllun yma bellach wedi cael ei ddechrau. Yn sgil y gwaith o wneud hyn, gofynwyd tybed oes modd i ni holi neu awgrymu i Cyngor Gwynedd greu croesffordd o Racca i Penisarwaun. Buasai'n fuddiol i alluogi cerddwyr yn ogystal a beicwyr groesi yn ddiogel o un pentref i'r llall. Penderfynwyd gysylltu yn syth i roi cais i'r Cyngor Sir.

**Biniau Halen** – Derbyniwyd llythyr gan drigolion ar Lôn Garnedd, yn datgan nad oes dim un bin halen ar y ffordd yma. Nid yw'r lôn chwaith yn cael ei graeanu o gwbl, ac yn sobor o llitherig a pheryglus fel y bu hi yn ystod y tywydd garw eleni. Cais i'r Cyngor Cymuned am fin halen ger Garnedd i'w galluogi o leiaf i graeanu, a gallu mynd i'w gwaith. Penderfynwyd fod yr angen yma am fin halen ar gost ychwanegol i'r cyngor cymuned. Y clerc i gysylltu i drefnu fod bin newydd yn cael ei leoli yno ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Clybiau Ieuentid** – Trafodwyd penderfyniad Cyngor Gwynedd i gau y clybiau. Nodwyd nad oes neb yn gwybod yn union beth ydi bwriad sydd gan Cyngor Gwynedd yn eu lle, yn dilyn Cau y Clybiau pentrefi. Awgrymwyd cyn gwneud dim penderfyniad, y buasai yn dda rhoi gwahoddiad i Craig ab Iago i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned er mwyn gweld beth yw bwriad Cyngor Gwynedd cyn gwneud dim penderfyniad ynglyn a'r clybiau ein hunain.

## **6. Cynllunio**

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:**

**2 Tan y Ffordd, Bethel** – Codi Estyniad deulawr yn y cefn.

**Cefn Gwyn – Cais diwygiedig o C17/0871/18/LL**

**Llythyr I Law 'Penrhyndeudraeth'** – Gofynwyd i'r clerc yrru copi ohono i bawb a'l roi ar raglen mis Mai i'w drafod.

## **7. Materion Ariannol**

Cyflwynodd y clerc gopi o restr taliadau, derbyniadau a rhestr TAW.

Cytunwyd fod y taliadau yn gywir, ac fod y derbyniadau yn unol a beth ddisgwyliwyd o'r praesept, ac adaliadau.

Dywedodd y clerc fod rhai anfonebau heb ddod i law, megis halen a graeanu, cwrs hyfforddiant, Atgyweirio cysgodfannau a chysgodfan bws Rhiwlas.

Petai yr anfonebau hyn wedi eu derbyn, dywedodd y clerc mai prin £300 fuasai'r gwahaniaeth yn y gyllideb eleni. Penderfynwyd, cario y cyllidebau lle rydym yn disgwyl anfonebau yn eu cyfanrwydd ymlaen i gyllideb eleni, fel fod y gyllideb eleni yn gyflawn hefyd.

## **Mantolen Ariannol**

*Cyflwynwyd Mantolen Ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn diweddu 31 Mawrth 2018. Derbyniwyd £5000 o braesept yn fwy nac y llynedd, roedd taliadau TAW yn llai o ychydig dan £700, ac mae yr ad daliad torri llwybrau wedi cwtogi bron i hanner yn dilyn toriadau Cyngor Gwynedd.*

*Yna o ochor taliadau, mae cynydd yn y gwariant oherwydd ein bod wedi rhannu mwy o £800 i fudiadau eleni, ac wedi talu ein cyfraniad o ad- daliad yn ôl, côst gweinyddol etholiad, cynnydd yn toriadau llwybrau ac wedi gosod golau stryd ychwanegol. Mae y balansau yn uwch, ond fel gwelwyd mae yna anfonebau heb ein cyrraedd cyn diwedd Mawrth, fydd yn cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn 2018/2019.*

*Derbyniwyd y cyfrifon a'r fantolen ariannol yn hollol gywir. Cytunwyd yn unfrydol fod y cyfrifon yn gywir i gael eu archwilio.*

## **8. Nid Da lle gellir Gwell**

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y cyngor, gofynwyd am gynnwys pwynt yma er mwyn trafodaeth lle buasai dewis rhyw 3 neu 4 bwyllgor craffu i ystyried amryw ffyrdd i wella, a hynny yn osgoi gwastraffu neu defnyddio amser y Cyngor mewn Cyfarfodydd. Hefyd y buasai criw bach yn cyflawni dipyn yn hytrach na 15 llawn, gyda'r bwriad i'r panel adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn. Penderfynwyd nad oedd angen hyn, ac y buasai gwell cael pwyllgor craffu pan fo'r angen yn unig. Dywedodd y clerc fod angen adolygu polisiau yn flynyddol, gan fod hyn yn un peth mae'r archwilwyr yn chwilio amdano yn drwyadl.

## **9. Meinciau**

Mainc Pensarn - Dywedwyd fod lori wedi taro y fainc ychydig wythnosau yn ôl bellach. Mae'r darnau sydd ar ôl wedi eu gosod dros dro yn Pensarn. Gan nad oes ganddom neb yn cymeryd y cyfrifoldeb o'i difrodi, gofynwyd i'r clerc drefnu i gael pris am ei thrwsio erbyn y cyfarfod nesaf.

Mainc Brynrefail – Mae'r fainc yma mewn cyflwr gwael, ac ddim yn bosib eistedd arni. Gofynwyd i'r clerc eto gael amcangyfrif o gôst i'w atgyfeirio a'i ail osod.

## **10. O gwmpas y Bwrdd**

**Ciosg Rhiwlas** – Rydym bellach wedi mabwysiadu y ciosg er mwyn cael diffriblydd ynddo, ond nid oes drws ar y ciosg. Mae'r gôst yn mynd i fod oddeutu £250. Tybed oes modd ystyried cael drws ar hwn pan y byddwn yn trafod cyllideb 2019/2020.

**Llwybr 93** – Mae'r Cyngor eisioes wedi derbyn llythyr y bydd y gwaith yn cael ei wneud ar y llwybr yma pan fydd y tywydd yn sych, ac wedi gwella. Y clerc i atgoffa Cyngor Gwynedd am hyn.

### **Lôn o Siop Gron am Weirglodd a Perthi Penisarwaun**

Angen llythyr i Cyngor Gwynedd ynglyn a chyflwr y lôn yn dyllau ac ail wneud y ffosydd.